# Cynllun Strategol DEIB - 2024-2028

## Rhagair gan y Prifathro

Mae ein Cynllun Strategol ar gyfer Amrywiaeth, Tegwch, Cynhwysiant a Pherthyn (DEIB) yn gweithredu fel map ffordd ar gyfer hyrwyddo ac arwain ein hymdrechion i greu cymuned i'n myfyrwyr, staff a phartneriaid. Trwy fesurau rhagweithiol rydym yn ceisio hyrwyddo amrywiaeth yn ei holl ffurfiau a meithrin diwylliant o berthyn lle mae gan bawb y cyfle i gyflawni eu llawn botensial.

Mae'r Coleg yn fan a fwriedir ar gyfer pawb – lle agored a chroesawgar lle caiff amrywiaeth ei ddathlu a'i ddiogelu. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu mannau parchus sy'n annog trafodaeth barhaus rhwng ein staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid ac i nodi a chael gwared ar rwystrau yn rhagweithiol er mwyn sicrhau bod canlyniadau mwy teg yn greiddiol i'r hyn a wnawn.

Mae ein Cynllun Strategol DEIB yn manylu ar ein hymrwymiad i greu amgylchedd dysgu a gweithio cynhwysol lle mae pawb yn ein cymuned amrywiol yn teimlo eu bod yn perthyn, yn cael eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial ac yn gallu cyfrannu at ein gweledigaeth o wneud cerddoriaeth a drama yn fwy hygyrch i bawb.

## Ein Hymrwymiad i Amrywiaeth, Tegwch, Cynhwysiant a Pherthyn (DEIB)

Mae cynllun strategol Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) yn ymwreiddio cynhwysiant fel gwerth craidd, a fynegir fel gweledigaeth i ysbrydoli a newid bywydau a chysylltu a thrawsnewid cymunedau trwy'r celfyddydau. Nod CBCDC yw mynd i'r afael â'r rhwystrau systemig sy'n atal pobl rhag cyrchu cyfleoedd ym meysydd cerddoriaeth a drama, gan wneud cerddoriaeth a drama yn fwy hygyrch i bawb, waeth beth fo'u cefndir neu nodwedd warchodedig.

Mae CBCDC yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol sy'n cynnwys Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC (BBC NOW), Y Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol (NOYO) ac amrywiaeth o sefydliadau cymunedol, megis Hynafiaid Windrush, Race Council Cymru, Dinas Noddfa Caerdydd ac Oasis Caerdydd (canolfan ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid). Mae ein gweithgareddau blaenorol sy'n gysylltiedig â DEIB wedi creu posibiliadau newydd i gerddorion lleol uchelgeisiol – yn amrywio o integreiddio Gwasanaethau Cerdd ac ensembles yr awdurdod lleol o fewn rhaglen ymgysylltu â'r gymuned CBCDC i greu cyfleoedd ar gyfer preswylfeydd cymunedol a chynhyrchu talent a llwybrau gyrfa sy'n galluogi myfyrwyr i gyflawni eu llawn botensial. Mae gweithgareddau eraill DEIB wedi galluogi ein myfyrwyr drama i ddatblygu eu dinasyddiaeth artistig drwy weithio mewn a gwasanaethu grwpiau cymunedol, megis Caffi Forget-me-not Caerdydd, Oasis a'r Wallich.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol bod rhwystrau ac anghydraddoldebau yn parhau, ac yn cydnabod bod gennym fwy i'w wneud. Er enghraifft, mae gofynion derbyn i Gonservatoire yn creu rhwystrau economaidd-gymdeithasol oherwydd cost uchel offerynnau ac addysg gerddoriaeth gyfyngedig mewn ysgolion. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i ni ymgysylltu'n ystyrlon â'n staff a'n myfyrwyr i ddeall ac ymateb yn well i brofiad bywyd ein cymuned amrywiol.

Mae'r egwyddorion canlynol yn sail i'n dull o ddatblygu DEIB:

- Defnyddio dull Coleg cyfan drwy ymwreiddio DEIB ym mhopeth a wnawn, fel cyfrifoldeb pob un.
- Ymwreiddio ein gwaith DEIB ym mhrosesau gwneud penderfyniadau, cynllunio strategol a gweithredol CBCDC, gan fod yn dryloyw o ran atebolrwydd am gynnydd gyda mesurau llwyddiant clir.
- Gweithio mewn partneriaeth â'n myfyrwyr, cydweithwyr a chymunedau (trwy fecanweithiau llais y myfyriwr, rhwydweithiau staff a grwpiau cymunedol) i hwyluso mecanweithiau llywodraethu DEIB sy'n galluogi i amrywiaeth o safbwyntiau gael eu clywed yn barhaus.
- Gwella prosesau casglu, dadansoddi ac adrodd ar ddata i alluogi gwaith cynllunio, monitro a gwerthuso cydraddoldeb strategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

## Ein Hymrwymiadau

Mae ein Cynllun Strategol DEIB yn nodi ein hymrwymiadau mewn tri maes allweddol o ran effaith a dylanwad mewn perthynas â'r canlynol:

- ein myfyrwyr
- ein staff
- ein cymunedau

**Ein Hymrwymiadau i Fyfyrwyr**

1. Byddwn yn sicrhau deialog ystyrlon, parhaus a gweithredol gyda myfyrwyr er mwyn deall ac ymateb yn well i brofiad bywyd ein corff myfyrwyr amrywiol.
2. Byddwn yn deall ac yn mynd i'r afael yn well â derbyniadau myfyrwyr, anghydraddoldebau dyfarnu graddau a chanlyniadau graddedigion.
3. Byddwn yn amrywio recriwtio myfyrwyr trwy weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned.
4. Mewn partneriaeth â myfyrwyr, a gan ddefnyddio arbenigedd y diwydiant, byddwn yn cyd-greu ac yn ymwreiddio cwricwlwm cynhwysol ac egwyddorion dad-wladychu o fewn ein prosesau sicrhau ansawdd a'n dysgu ac addysgu, gan alluogi pawb i ddatblygu eu harfer cynhwysol.

**Ein Hymrwymiadau i Staff**

1. Byddwn yn sicrhau deialog ystyrlon, parhaus a gweithredol gyda staff er mwyn deall ac ymateb yn well i brofiad bywyd ein corff staff amrywiol.

2. Byddwn yn parhau i ddatblygu strategaethau rhagweithiol i ddenu ceisiadau amrywiol ochr yn ochr â mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn canlyniadau recriwtio a dewis academaidd a phroffesiynol a nodir.
3. Byddwn yn sicrhau bod y cyfleoedd datblygu gyrfa a mentora yn dryloyw ac ar gael yn gyfartal i bob aelod o staff.
4. Byddwn yn adolygu ac yn gwerthuso cefnogaeth gyrfa a gwaith i grwpiau staff sydd heb gynrychiolaeth ddigonol (e.e. darparu prosesau addasu rhesymol tryloyw).
5. Byddwn yn sicrhau bod prosesau ail-raddio a dilyniant staff a mecanweithiau cymorth yn dryloyw ac yn deg i bob aelod o staff.

**Ymrwymiadau Cydraddoldeb i'r Gymuned**

1. Byddwn yn parhau i hyrwyddo urddas a pharch, er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiadau digroeso ac i weithio tuag at greu diwylliant diogel, parchus, cynhwysol ac adferol lle mae gan bawb ymdeimlad o berthyn.
2. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyfartal â staff, myfyrwyr a sefydliadau cymunedol i gynyddu'r defnydd a'r ymdeimlad o berthyn yn CBCDC.
3. Byddwn yn gwella ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad staff a myfyrwyr yn ein dyheadau a'n gweithgareddau DEIB, gan eu galluogi i ymwreiddio gwrth-hilioliaeth a chynhwysiant yn eu harfer.
4. Byddwn yn gwella hygyrchedd i'n campws a'n perfformiadau ac yn codi ymwybyddiaeth o fecanweithiau cymorth.
5. Byddwn yn darparu cyfleoedd i'n staff, myfyrwyr a'n cymuned ymgysylltu â gweithgareddau sy'n dathlu iaith – gan gynnwys y Gymraeg ac Iaith Arwyddion Prydain.
6. Byddwn yn parhau i asesu effaith ein polisïau a'n prosesau ar gydraddoldeb ac yn ymwreiddio'r asesiadau hyn yn ein trefn lywodraethu datblygu a chymeradwyo polisïau a phrosesau.

## Mesurau Llwyddiant Allweddol

**Llywodraethu DEIB**

- Tystiolaeth gyhoeddedig o gynnydd blynyddol yn erbyn ein cynlluniau cydraddoldeb strategol a gweithredol.
- Cynnydd mewn cynrychiolaeth amrywiol ar bwyllgorau gwneud penderfyniadau CBCDC.

**Myfyrwyr**

- Gwaelodlin ar gyfer anghydraddoldebau canlyniadau derbyn myfyrwyr wedi ei sefydlu a'i lleihau.
- Amrywiaeth mewn gweithgareddau recriwtio myfyrwyr yn amlwg o fewn cydweithio cymunedol

- Bylchau dyfarnu o ran ethnigrwydd ar gyfer myfyrwyr gradd ac ôl-radd wedi'u lleihau (o'r waelodlin yn 2024 o tua 20% ar gyfer gradd gyntaf (isradd) a rhagoriaethau (ôl-radd)).

**Staff**

- Cyfran y staff cymorth academaidd a phroffesiynol Mwyafrif Byd-eang (GM) wedi cynyddu o 6% a 5% yn y drefn honno i 15%.
- Gwaelodlin data ar gyfer anghydraddoldebau canlyniadau recriwtio a dethol staff wedi'i sefydlu ac yna ei lleihau.
- Gwaelodlin data ar gyfer unrhyw anghydraddoldebau mewn profiad o waith a chymorth gyrfa staff wedi'i sefydlu ac yna ei lleihau.

**Y Gymuned**

- Hygyrchedd cynyddol i gampws CBCDC (gan ddefnyddio ein harchwiliad campws a phrofiad myfyrwyr a staff)
- Defnydd cynyddol y gymuned o fannau CBCDC yn amlwg
- Cynnydd mewn hyder myfyrwyr a chydweithwyr i gael sgwrs agored am hil, wedi'i ddangos trwy ymgysylltiad â, ac adborth gan, randdeiliaid
- Cynnydd mewn hyder i adrodd am fwlio ac aflonyddu wedi'i ddangos trwy ymgysylltiad â, ac adborth gan, randdeiliaid

**Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd cydraddoldeb ar gyrff y sector cyhoeddus, megis CBCDC. Wrth gyflawni ein swyddogaethau rhaid i ni roi sylw dyladwy i

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd o dan y Ddeddf;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu; a
- Meithrin cydberthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

## Rhwymedigaethau Cyfreithiol

Mae'r Ddyletswydd Gyffredinol yn cwmpasu'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- oedran
- ailbennu rhywedd
- bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth
- anabledd
- hil gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol

- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

Nid ydym yn cyfyngu ein dealltwriaeth o amrywiaeth i nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb (2010) ac rydym yn ystyried popeth sy'n ein gwneud yn unigryw, gan gynnwys, er enghraifft, statws economaidd-gymdeithasol, cyfrifoldebau gofalu neu fod yn berson sy'n gadael gofal.

**Y Gymraeg**

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol ac mae'n nodi'r ddyletswydd statudol y mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â hi. Mae Safonau'r Gymraeg, a ddaeth i rym yn 2018, yn gyfres o ofynion cyfreithiol rhwymol sydd â'r nod o wella'r gwasanaethau dwyieithog y gall unigolion eu disgwyl gan gyrff a sefydliadau cyhoeddus, gan gynnwys Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Mae'r Safonau'n nodi beth yw cyfrifoldebau'r Coleg wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae manylion ein hymrwymiad i'r Gymraeg i'w gweld yn Strategaeth y Gymraeg a Diwylliant Cymru CBCDC, sy'n amlinellu dull parhaus CBCDC yn ymwneud â'r Gymraeg i'w holl randdeiliaid, gan gynnwys myfyrwyr, staff a chynulleidfaoedd. Y tu hwnt i ystyriaethau iaith yn unig, ac yng nghyd-destun sefydliad celfyddydol deinamig, nod Strategaeth y Gymraeg a Diwylliant Cymru y Coleg yw ymestyn i ddiwylliant Cymru, ac at ddatblygu dull cyfannol, gan gydnabod bod diwylliant ac iaith wedi'u plethu i wead diwylliannol Cymru.

## Datblygu ein Cynllun Strategol DEIB

Mae datblygiad ein cynllun strategol a'n hymrwymiadau DEIB wedi'u seilio ar ddadansoddiad o'n data amrywiaeth mewnol a thrwy ymgynghori â staff, myfyrwyr a'r gymuned ehangach. Rydym hefyd wedi defnyddio arfer da o'r sector addysg bellach ac uwch, gan gynnwys arbenigedd cerddoriaeth a drama arbenigol megis trwy Conservatoires UK. Fe wnaeth grŵp gorchwyl a gorffen Cynllun Strategol DEIB, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o blith staff a myfyrwyr, arwain ar ddatblygu'r Cynllun cyn iddo gael ei gymeradwyo gan ein EDIC, Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Bwrdd.

## Gweithredu a monitro ein Cynllun Strategol DEIB

Cyfres o 15 ymrwymiad cyffredinol gyda mesurau llwyddiant cysylltiedig ar gyfer 2025-30 yw ein Cynllun Strategol DEIB. Fe'i hategir gan gynlluniau gweithredu gweithredol blynyddol, sy'n ymgorffori ein cynllun gweithredu Siarter Cydraddoldeb Hiliol ac yn cynnwys mesurau llwyddiant mwy manwl y gellir gwerthuso ein cynnydd yn eu herbyn.

Mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygu a gweithredu ein Cynllun Strategol DEIB yn gorwedd gydag Uwch Dîm Arweinyddiaeth CBCDC a thrwy oruchwyliaeth gan Bwyllgor DEIB CBCDC. Mae manylion yr arweinwyr strategol a gweithredol i'w gweld yn ein cynlluniau gweithredu gweithredol. Mae ein Bwrdd yn craffu'n allanol ar gynnydd yn erbyn ein Cynllun Strategol DEIB.

Mae Pwyllgor DEIB yn cyfarfod bob tymor ac mae'n gynrychioliadol o wasanaethau a rhanddeiliaid ar draws y Coleg. Mae Cylch Gorchwyl Pwyllgor DEIB, a adolygir yn flynyddol, yn nodi cyfrifoldeb, cylch gwaith a chyfansoddiad y grŵp ac yn adlewyrchu cynrychiolaeth ein rhanddeiliaid.

Mae goruchwyliaeth DEIB hefyd wedi'i ymwreiddio ar draws pwyllgorau gwneud penderfyniadau gyda phob amcan cydraddoldeb â noddwr staff ac arweinydd gweithredol a chamau gweithredu wedi'u hymgorffori mewn cynlluniau lleol. Mae arweinwyr sy'n atebol am gynnydd yn adrodd i Bwyllgor DEIB a phwyllgorau academaidd allweddol megis Pwyllgor Dysgu, Addysgu a Gwella y Coleg, y Pwyllgor Ymchwil a Phwyllgor Sicrwydd Ansawdd y Coleg. Mae adolygiad blynyddol o Fwrdd CBCDC a phwyllgorau DM yn cynnwys gwerthuso cynrychiolaeth.

Cyhoeddir canlyniadau craffu manwl ar y cynnydd tuag at gyflawni amcanion ein Cynllun Strategol DEIB ar ein gwefan. Bydd monitro gweithrediad ac effaith ein hamcanion cydraddoldeb a'n cynllun gweithredu yn broses barhaus a fydd yn digwydd trwy'r strwythurau llywodraethu cydraddoldeb - a amlinellir uchod - ac fel a ganlyn:

- Adolygir cynllun gweithredu â sgôr RAG bob tymor trwy Bwyllgor DEIB ac adroddir yn flynyddol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Bwrdd.
- Yn unol â Dyletswyddau Penodol y Ddeddf Cydraddoldeb, byddwn yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn sy'n manylu ar adroddiadau data cyflogaeth staff a chydraddoldeb myfyrwyr ac sy'n asesu cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb.